**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**

**Cyfarfod rhithwir: Cyfarfod dros Microsoft Teams**

**Dydd Iau 3 Rhagfyr 2020**

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Y Gwir Anrh Simon Hart AS y DU | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Jason Eldridge | Pennaeth Polisïau Materion Domestig, Swyddfa Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gwell Rheoleiddio, Trawsbynciol, Datganoli a Chymru, y Swyddfa Gartref |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng COVID-19 |
| Karin Phillips | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Siân Brown | Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Catrin Dowling | Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Karen Cornish | Dirprwy Gyfarwyddwr, Plant a Theuluoedd |
| Christopher Warner | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Chyfiawnder |
| Imogen Sheriff | Pennaeth Cyfiawnder Sifil a Gweinyddol |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr y Comisiynydd, Dyfed Powys |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Siân Curley | Prif Weithredwr y Comisiynydd, Gwent |
| Arfon Jones | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr y Comisiynydd, Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Lee Jones | Prif Weithredwr y Comisiynydd, De Cymru |
| Cerith Thomas | Swyddog Cyswllt Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| Mark Collins | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Carl Foulkes | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Jenny Gilmer | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Heddlu De Cymru |
| Tracey Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Lara Snowdon | Arweinydd Iechyd y Cyhoedd, Uned Atal Trais Cymru |

| | |
|---|---|
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr, CLlLC |
| Y Cynghorydd Rob Jones, Llefarydd Diogelwch Cymunedol, CLlLC | |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Helen Hill | Gweinyddwr Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Sylwedyddion</u>

| | |
|---|---|
| Rachel Allen | Cydgysylltydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru |
| Liv Donne | Cydgysylltydd Prevent, Llywodraeth Cymru |
| Obi Funmi | Dirprwy Weinidog a gwestai'r Prif Chwip |
| Sophie Weeks | Dirprwy Weinidog a gwestai'r Prif Chwip |
| Abigail Wilson-Date | Swyddog Polisi yn Swyddfa Cymru |
| Rebeca Dafydd | Ysgrifennydd Preifat i'r Gwir Anrh Simon Hart AS y DU |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AS | Prif Weinidog Cymru, Cadeirydd |
| Vaughan Gething AS | Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Jeremy Miles AS | Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Trefniadau Pontio Ewropeaidd |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Busnes Corfforaethol a Gweinidogol |
| Andrew Goodall | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Alyson Francis | Dirprwy Gyfarwyddwr Cymunedau, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol |

| Tabl Camau Gweithredu (Gan gynnwys camau hanesyddol a chamau newydd) | |
|---|---|
| 1) Ar ôl dadansoddi'r adolygiad annibynnol o wasanaethau awyr presennol a wnaed yn ddiweddar gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS), roedd yn glir y gallai'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad amharu ar ansawdd y gwasanaethau y byddai Cymru yn eu cael. Cwblhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed Powys ddadansoddiad manwl o'r argymhellion, a chyflwynodd argymhelliad newydd i NPAS ar ôl ymgynghori ymhellach â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru. Mae'r argymhelliad newydd yn golygu y byddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru, ar y cyd ag NPAS, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y potensial i adeiladu safle ar gyfer dwy awyren ym Maes Awyr Caerdydd. Bydd hyn yn cynnwys safle sy'n gallu dal awyren ag adenydd sefydlog a hofrennydd. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd â'r holl bartneriaid allweddol er mwyn sicrhau y bydd modd cynnig ateb mwy addas yng Nghymru. | Alun Michael/ Prif Gwnstabl Foulkes/ Swyddog Llywodraeth Cymru |
| 2) Gofynnir am gymorth i sicrhau y caiff yr Ardoll Brentisiaethau ei thalu | Prif Weinidog |
| 3) Mae Gweinidogion yn cydnabod y bydd digwyddiadau pwysig a gynhelir yng Nghanolfan Gynadleddau Ryngwladol Cymru yn cael effaith ar ranbarth y De-ddwyrain, ac nid Gwent yn unig. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae digwyddiadau cysylltiedig 'ar y cyrion' a'r galw | Swyddogion Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| ar rwydweithiau ffyrdd. Mae angen cael sêl bendith gan gyrff cyhoeddus, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. | |
| 4) Ceisir ymrwymiad parhaus i'r rhaglen ranbarthol Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) a'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 5) Fel y gŵyr gweinidogion, mae is-grŵp ar 'Plant yn Nalfa'r Heddlu / Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Lleoliadau Remand' wedi cael ei greu o dan y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant (IO4C). Gofynnir am ffocws parhaus ac, yn hanfodol, gyflymder yn y maes gwaith hollbwysig hwn. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 6) Yn ystod cyfarfod Bwrdd Partneriaeth gweithredol Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, rhoddodd yr Arweinydd Lleihau Niwed y wybodaeth ddiweddaraf a oedd yn dangos cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Fel y cyfryw, rydym yn awgrymu y dylid sefydlu grŵp digwyddiadau critigol er mwyn adolygu meysydd sy'n peri pryder ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghwm Taf. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 7) Bod 'Un Dull Cyffredin ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus' ar waith i fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru – dan arweiniad Grŵp/Bwrdd 'Aur' a arweinir gan Lywodraeth Cymru | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 8) Bod Hanes Pobl Dduon yn cael ei hyrwyddo yn ehangach dros Gymru gyfan – gan gynnwys Rhaglen Ysgolion yr Heddlu ac mewn Addysg yn gyffredinol | Tracey Breheny |
| 9) Bod pecyn hyfforddiant Cymru gyfan ar gael sy'n cwmpasu cydraddoldeb hiliol, hanes pobl dduon, cydlyniant cymunedol a rhagfarn ddiarwybod y gall yr holl wasanaethau cyhoeddus gael gafael arnynt | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 10) Gan fod cynhwysiant cymunedol wrth wraidd rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), a gefnogir yn ariannol gan Lywodraeth Cymru, fod nifer o PCSOs yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar ymgysylltu â chymuned pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) i roi statws arbenigwyr iddynt. | Karin Philips |
| 11) Bod ymgyrch gyfathrebu a gaiff ei chydlynu gan Lywodraeth Cymru ar gael i ddenu mwy o ymgeiswyr BAME i weithio yn y sector cyhoeddus. | Recriwtio pobl BAME |
| 12) (17/09/20) Swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod hyfforddiant gwrth-hiliaeth â'r Heddlu<br>Trefnwyd cyfarfod ar 6 Ionawr | Alyson Francis/ Paul Morris |
| 13) Tracy Breheny i sicrhau bod cyfle i'r holl Fyrddau Cynllunio Ardal fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, yn ogystal â dull iechyd y cyhoedd o gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a'u bod yn dysgu ohonynt. | Tracey Breheny |
| 14) (17/09/20) Bod ymgyrch gyfathrebu a gaiff ei chydlynu gan Lywodraeth Cymru ar gael i ddenu mwy o ymgeiswyr BAME i weithio yn y sector cyhoeddus. | Alyson Francis |
| 15) (17/09/20) Swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried Diogelu ardaloedd cyhoeddus a mesurau diogelu wrth lunio cyfundrefnau cynllunio, gan sicrhau bod yr agendâu yn ymwneud â Therfysgaeth / Troseddau Treisgar yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol. | Tîm Cynllunio Llywodraeth Cymru/ Paul Morris |
| 16) (03/12/2020) Uned Gyswllt yr heddlu i gydgysylltu â'r Uned Atal Trais i gael amser thematig mewn cyfarfod yn y dyfodol. | Paul Morris |
| 17) (03/21/2020) Jon Drake i siarad â'r Comisiynydd Jones am ymchwil a gynhaliwyd ar drais gan Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol | Jon Drake |

| | |
|---|---|
| 18) (03/12/20) Karen Philips i drefnu gwahoddiad i'r Comisiynydd Michael a T/DCC Gilmer i gyfarfod y Dirprwy Gyfarwyddwyr yn y dyfodol i drafod y Datganiad o Fwriad. | Karin Phillips |
| 19) Karen Cornish i drafod â'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ffyrdd y gallai fod yn fwy amlwg ar draws Llywodraeth Cymru. | Karen Cornish |
| 20) Ysgrifennydd Gwladol Cymru i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf ar gynnydd mewn perthynas â'r Ardoll Brentisiaethau. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart |
| 21) (03/12/2020) 8 Corfforaeth Undyn i gefnogi ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru adeg y Nadolig a negeseuon ar y cyd mewn perthynas â'r Ymgyrch Byw Heb Ofn, sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). | Arweinwyr cyfathrebu |
| 22) (03/12/2020) Y Comisiynydd Jones i rannu dau adroddiad, sef “Methu'r Pwynt” a'r papur ar Linellau Cyffuriau er gwybodaeth.<br>Uned Gyswllt yr Heddlu i gydgysylltu â'r Comisiynydd Jones mewn perthynas â chyflwyno'r dogfennau fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol. | Arfon Jones/ Paul Morris |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

1.2 Estynnwyd croeso penodol a llongyfarchiadau i Jeremy Vaughan ar gael ei benodi'n Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru.

1.3 Diolchwyd i CC Carl Foulkes am ei gyfraniad a'i ymrwymiad fel Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru, a chroesawyd CC Pam Kelly fel y Cadeirydd newydd yn dechrau ym mis Ionawr 2021.

1.4 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Cynghorydd Dorrance am ei ymrwymiad a'i gyfraniad fel aelod o'r Bwrdd yn cynrychioli CLlLC, a chroesawyd y Cynghorydd Rob Jones fel y Llefarydd Diogelwch Cymunedol newydd yn cynrychioli CLlLC.

1.5 Estynnwyd croeso cynnes hefyd i Tracey Cooper o Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth iddi ymuno â'r Bwrdd mewn cyfarfod am y tro cyntaf.

1.6 Atgoffodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau o safonau ymddygiad y cyfarfod, ac esboniodd y byddai unrhyw geisiadau a wnaed yn yr adroddiadau uchafbwyntiau yn cael sylw gan swyddogion y tu allan i'r cyfarfod.

1.7 O ganlyniad i ymrwymiadau dyddiadur ymunodd y Gwir Anrh Simon Hart, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, â'r cyfarfod yn hwyrach na'r disgwyl, ac felly

diwygiwyd yr agenda ychydig er mwyn sicrhau y byddai modd clywed y wybodaeth ddiweddaraf ganddo.

## 2. Adroddiadau ar Gynnydd o ran Camau Gweithredu

**2a) <u>Camau Cynnar Gyda'n Gilydd</u>** (CC Jeremy Vaughan, Prif Weithredwr Stephen Hughes a DPCC Emma Wools)

2.1 Diolchodd CC Vaughan i'r Dirprwy Weinidog am y cyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau.

2.2 Rhoddodd Stephen Hughes drosolwg cryno ond cynhwysfawr o'r broses o sefydlu gwaith Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ers 2017, yn sgil y cais am arian o Gronfa Drawsnewid yr Heddlu.

2.3 Bu'r ffocws bob amser ar ddatblygu dull system gyfan, gyda'r nodau allweddol o ddarparu iaith gyffredin, hyfforddiant a rennir ac arferion gweithio integredig rhwng cyrff datganoledig, cyrff annatganoledig a thrydydd partïon.

2.4 Dosbarthwyd papur polisi cyn y cyfarfod i ategu'r diweddariad hwn, gan gynnig crynodeb pellach o gefndir a datblygiad y gwaith.

2.5 Derbyniodd CC Vaughan nad oedd y ffocws wedi bod ar ystyried y goblygiadau ariannol i bob un o'r partneriaid yn flaenorol. Fodd bynnag, gyda threigl amser, daeth yn glir bod y meysydd lle mae'r galw mwyaf, a'r her fwyaf, yr un peth ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.

2.6 O ganlyniad i feithrin y ddealltwriaeth hon, mae cydweithwyr yn fwy ymwybodol nag erioed bod angen adnabod a chofnodi profiadau niweidiol, ac yn fwy parod i wneud hynny. Mae'r ffaith bod partneriaid yn defnyddio'r un iaith ac yn defnyddio mwy o wasanaethau integredig wedi bod o gymorth mawr yn hyn o beth. Mae'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth hon yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu polisïau, i gyflwyno mwy fyth o ymyriadau, ac i roi rhaglenni atal ar waith.

2.7 Pwysleisiodd y Dirprwy Gomisiynydd Emma Wools fod angen cynnal ffocws parhaus ac integreiddio gwasanaethau a darpariaeth ymhellach fyth er mwyn adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd hyd yma.

2.8 Gofynnodd Emma i Lywodraeth Cymru gefnogi'r canlynol:

- Blaenoriaethu gwaith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar drwy Strategaeth drawslywodraethol fel rhan o'r broses adfer yn sgil COVID-19, gan leihau'r galw a'r costau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, a diwallu anghenion y bobl sydd fwyaf agored i niwed ac wedi'u hymyleiddio fwyaf yn ein cymdeithas.
- Llywodraethu sy'n cefnogi newid strwythurol i systemau er mwyn sicrhau un Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, a arweinir gan Weinidogion ac a gaiff ei ddarparu drwy ddulliau sefydlog â'u cymuned ymarfer a rennir (e.e. Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, Hwb Cymorth

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Uned Atal Trais)

- Cadarnhau'r ymrwymiad i ddatblygu cenedl sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac effeithiau trawma sy'n cynnwys pob cymuned yn ogystal â'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.
- Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru i gynnal cyfarfod bord gron trawslwyodraethol i weinidogion er mwyn ystyried canfyddiadau'r papur polisi a'r modelau a'r ffyrdd o weithio â'r dystiolaeth gryfaf.

2.9 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i Stephen Hughes, CC Vaughan a'r Dirprwy Gomisiynydd Wools am roi trosolwg rhagorol a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i bob un o'r ceisiadau.

2.10 Mae Julie Morgan AS wedi comisiynu adolygiad o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a ddylai adrodd iddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd yn ystyried y canfyddiadau a'r camau nesaf posibl.

2.11 Roedd aelodau o'r Bwrdd yn gefnogol iawn i'r cyflwyniad, gan gydnabod bod Llywodraeth Leol yn hanfodol.

2.12 Tynnodd nifer o'r aelodau sylw at brosiectau eginol cadarnhaol. Esboniodd Gogledd Cymru mai'r bwriad yw buddsoddi mewn canolfannau atal, a rhoddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent enghraifft o ganolbwyntio ar ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o ddilyn llwybr tuag at droseddu.

2.13 Nododd Tracey Cooper fod arferion gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru yn unigryw, ac yn destun cenfigen i wledydd eraill. Bydd y niwed cudd a achoswyd gan COVID-19 yn enfawr. Pwysleisiwyd y ffaith y bydd yr Heddlu ac Asiantaethau troseddol ehangach yn wynebu nifer o heriau wrth i faint gwirioneddol y niwed ddod i'r amlwg.

2.14 Diolchodd Emma Wools i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith, gan ddiolch yn arbennig i Jo Hopkins am barhau i lywio'r agenda ar ran pawb.

**2b. <u>Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan yr Uned Atal Trais</u>** (Jon Drake, Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais a Lara Snowdon, Arweinydd Iechyd y Cyhoedd)

2.14 Diolchodd Jon i'r Dirprwy Weinidog am y gwahoddiad a chyflwynodd ei hun a Lara Snowdon i'r Bwrdd.

2.15 Esboniwyd y byddai'r cyflwyniad PowerPoint yn canolbwyntio ar fesurau atal mewn partneriaeth sydd, fe'i pwysleisiwyd, yn cael cymorth mawr gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Tynnodd Jon sylw at o leiaf 10 o flaenoriaethau

Llywodraeth Cymru sy'n hwyluso cydberthnasau gwaith integredig a rhannu data.

2.16 Yn y sleidiau, tynnodd Jon sylw at y nifer cynyddol o aelodau'r Uned Atal Trais, yn nhermau aelodau craidd ac aelodau cyswllt, sydd oll â chenhadaeth a rennir. Dangosodd hefyd fod yr uned, o ganlyniad i'w chryfderau, bellach yn cael ei chomisiynu i wneud gwaith ymchwil yn ogystal â gwneud ei gwaith ymchwil a dadansoddi ei hun.

2.17 Esboniodd Lara fod yr uned yn defnyddio dull Iechyd y Cyhoedd. Esboniwyd y strwythur llywodraethu, gan ddangos sut mae Bwrdd Trosolwg yr Uned Atal Trais, y System Gwyliadwriaeth Trais a'r Fframwaith Gwerthuso yn sail i ffrydiau gwaith.

2.18 Gan ddefnyddio data penodol a chudd-wybodaeth ehangach, mae'r uned yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall tueddiadau trais, er enghraifft y tueddiadau a welir yn ystod pandemig COVID-19. Nododd Lara fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r uned i edrych ar yr hyn sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod yr uned hefyd wedi ariannu tîm o weithwyr iechyd proffesiynol yn y GIG i nodi pobl ac ymgysylltu â nhw er mwyn nodi risgiau'n gynharach.

2.19 Gofynnodd Jon am amser thematig ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2.20 Diolchwyd i Jon a Lara am eu cyflwyniad, a oedd yn dreiddgar ac yn galonogol.

2.21 Cytunodd y Dirprwy Weinidog mewn egwyddor i gyflwyniad arall yn y dyfodol, a gofynnodd i Uned Gyswllt yr Heddlu ystyried bod yn bresennol yn y dyfodol
**Cam Gweithredu 16: Uned Gyswllt yr heddlu i gydgysylltu â'r Uned Atal Trais i gael amser thematig mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

2.22 Gofynnodd y Comisiynydd Jones a oedd unrhyw waith ymchwil wedi cael ei wneud i edrych ar lefelau trais rhwng Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn dilyn gweithrediadau llwyddiannus gan yr heddlu, yn benodol pan gaiff cyflenwad cyffuriau ei ddileu, a'r trais a achosir pan fydd gangiau eraill ymdaro i lenwi'r bwlch.

2.23 Er y cadarnhawyd nad oedd unrhyw waith ymchwil ar gael ar y pwnc penodol hwn, nodwyd bod gwaith ymchwil ar gael yn edrych ar Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol, a chynigiodd Jon siarad â'r Comisiynydd ar wahân am hynny.
**Cam Gweithredu 17: Jon Drake i siarad â'r Comisiynydd Jones am ymchwil a gynhaliwyd ar drais gan Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol**

2.24 Awgrymodd Tracey Cooper y dylid ystyried datblygu dull o atal pob math o drais sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o ymddygiadau a gwyddor data yn ystod cam nesaf yr Uned Atal Trais y flwyddyn nesaf.

2.25 Croesawodd Jon yr awgrym hwn, a nododd ei fod yn ddiolchgar iawn am gymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gydol oes yr Uned Atal Trais.

3. **Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru** – **Cyflwyniad â Thema** (PCC Michael a T/DCC Gilmer)

3.1 Esboniodd T/DCC Gilmer fod Partneriaid Cyfiawnder Troseddol allweddol wedi cynnal grŵp Adfer Amlasiantaethol er mwyn fynd i'r afael â'r ôl-groniadau llys dychrynllyd sydd wedi codi yn sgil y pandemig, gan ddefnyddio fformat tebyg i'r un a ddefnyddiwyd i gynnal cyfarfod adfer wrth wynebu ymadael â'r UE.

3.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Adfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn wythnosol i ddechrau, ac wedyn bob pythefnos, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol. O ganlyniad i hynny, cafodd cydberthnasau cryf eu meithrin, cafodd anawsterau eu nodi'n gyflym a chafodd problemau eu datrys.

3.3 Roedd effaith a llwyddiant y grŵp yn sylweddol. Mae'r Grŵp Tactegol a sefydlwyd gan Blismona i arwain gwaith ar gyfiawnder troseddol wedi cyfrannu at waith y Grŵp Adfer. Roedd yr Arglwydd Ganghellor wedi cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru wedi bod yn arbennig o effeithiol, ac y byddai Llys y Goron yn eistedd am fwy o ddiwrnodau yng Nghymru nag yn y cyfnod cyn COVID-19.

3.4 Tynnwyd sylw at enghraifft arall o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth pan nad oedd yn bosibl agor y llysoedd o ganlyniad i broblemau staffio. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, aeth gwirfoddolwyr Heddlu De Cymru ati i weithio fel swyddogion llys yn Abertawe, gan sicrhau y byddai modd cynnal 1000 o oriau o wasanaeth llys.

3.5 Mae'r Gwasanaeth Llysoedd yng Nghymru bellach yn wynebu amserlen fwy calonogol o lawer ar gyfer adfer o'i gymharu â'r Gwasanaeth Llysoedd yn Lloegr.

3.6 Mae awydd gwirioneddol i adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd yn sgil y momentwm hwn. Yng nghyfarfod Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ym mis Medi, cytunwyd y dylai'r Grŵp Adfer drawsnewid yn Grŵp Llywio newydd yn barhaol. Roedd aelodau o Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi neilltuo arian i gyflogi cydgysylltydd i gefnogi'r gwaith hwn, a bu Rachel Allen, a oedd newydd ddechrau yn y swydd hon, yn bresennol fel sylwedydd yng Nghyfarfod y Bwrdd.

3.7 Mae'r Grŵp Llywio wedi llunio Datganiad o Ddiben ac wedi cronni arian i dalu am swydd y cydgysylltydd, ac mae bellach yn awyddus i fynd ati i fynd i'r afael â heriau pellach a wynebir gan y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

3.8 Gall y cydberthnasau rhwng cyrff datganoledig a chyrff annatganoledig fod yn gymhleth, ond parheir i ganolbwyntio ar ddioddefwyr a phrosesau er mwyn gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

3.9 Nid oedd yn syndod i neb fod y Grŵp wedi nodi bod yr holl bartneriaid yn cytuno mai Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl a Thrais yw'r meysydd lle mae'r galw mwyaf.

3.10 Dyfynnodd y Comisiynydd Michael eiriau'r Arglwydd Thomas o Gwmgïedd ar ddechrau gwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a sefydlwyd gan y Prif Weinidog, pan ddywedodd, yn hytrach na cheisio penderfynu ar unwaith a ddylid datganoli Cyfiawnder Troseddol a Phlismona, dylem ofyn i ni'n hunain sut beth ddylai System Cyfiawnder Troseddol effeithlon ac effeithiol i Gymru fod. Dyna'r union ddull y mae Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol annatganoledig sy'n gweithio yng Nghymru wedi ei ddilyn ar y cyd â'u partneriaid datganoledig. Roedd y ffaith bod cyrff datganoledig ac annatganoledig yn cydweithio'n effeithiol yn gwella ansawdd cyfiawnder yng Nghymru, meddai.

3.11 Tynnodd y Comisiynydd Michael sylw at y ffordd roedd Swyddogion yr Heddlu wedi gweithio yn ystod cyfnod COVID-19. Fel arfer, San Steffan fyddai'n gyfrifol am ddarparu deddfwriaeth Cyfiawnder Troseddol, ond roedd COVID-19 wedi creu argyfwng Iechyd y Cyhoedd, ac roedd pawb yn parchu hynny, felly Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am y ddeddfwriaeth, ac roedd yr heddlu'n parchu hyn wrth orfodi'r gyfraith. Y flaenoriaeth oedd darparu'r gwasanaethau cywir i ddioddefwyr, a sicrhau nad oedd y rhyngberthynas rhwng cyrff datganoledig a chyrff annatganoledig yn broblem. Anogodd y Comisiynydd Michael Lywodraeth Cymru i wneud defnydd da o waith Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, ac efallai ofyn i'r Grŵp Llywio roi tystiolaeth i Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder. Diben Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru oedd sicrhau cyfiawnder da, naill ai drwy setliad datganoledig neu setliad annatganoledig.

3.12 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i aelodau o'r Grŵp Llywio, a'r Grŵp Adfer cyn hynny, am y ffordd roeddent wedi dod i ddeall y mater hwn.

3.13 Sefydlwyd is-bwyllgor yn dilyn gwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog. Croesawyd y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y cyfarfod, a oedd yn dangos, o ystyried y Datganiad o Fwriad o safbwynt Gweithredol, ei bod yn amlwg bod dioddefwyr wedi cael eu gosod wrth wraidd y gwaith.

3.14 Nododd Chris Jennings gyfraniad Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, ac roedd yn parhau i fod yn gefnogol iawn. Mynegwyd cyffro ynghylch sut olwg fydd ar y camau nesaf, ac roedd yn amlwg bod awydd i weld sut y bydd gweledigaeth y Grŵp Llywio yn cael ei rhoi ar waith. Gwnaeth Chris gydnabod pwysigrwydd adeiladu ar y cydberthnasau rhagorol.

3.15 Nododd Reg Kilpatrick nad oedd y Datganiad o Fwriad na'r gweithio mewn partneriaeth a welwyd yn syndod mewn ffordd, gan fod partneriaethau wedi bod wrth wraidd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn cadarnhau cydberthnasau a dylid ei groesawu.

3.16 Awgrymodd Reg efallai y byddai'r Comisiynydd Michael am ddod i siarad ag Uwch-weision Sifil eraill am y Datganiad o Fwriad, gan dynnu sylw at natur drawsadrannol Cyfiawnder Troseddol.

3.17 Croesawodd y Comisiynydd Michael y cyfle i gwrdd ag Uwch-weision Sifil eraill i drafod y Datganiad o Fwriad ymhellach.
**Cam Gweithredu 18: Karin Philips i drefnu gwahoddiad i'r Comisiynydd Michael a T/DCC Gilmer i gyfarfod y Dirprwy Gyfarwyddwyr yn y dyfodol i drafod y Datganiad o Fwriad.**

3.18 Nododd Tracey Cooper efallai y byddai modd rhyddhau'r ddealltwriaeth a'r rolau traws-sector drwy gyflwyno tystiolaeth o'r effaith gyfannol y mae troseddau yn ei chael ar sectorau eraill, gan ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ystyriol o adenillion ar fuddsoddiad (yn debyg i'r ffeithlun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gwaith ar effeithiau trais ar y GIG).

3.19 Tynnodd Karen Cornish sylw at y ffrwd gwaith Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed, a chroesawodd y Grŵp Llywio allanol a fyddai'n ategu'r gwaith hwn, a gwaith y ddeddfwriaeth RDRP.

3.20 Diolchodd Jo Hopkins i Karen, gan nodi ei bod yn ddefnyddiol iawn o ran y wybodaeth ddiweddaraf ar y ffordd ymlaen ar gyfer Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, ac awgrymodd y byddai'n syniad da edrych ar sut y gellir gwneud hyn yn fwy amlwg yn fewnol ar draws Llywodraeth Cymru. Cynigiodd Naomi Alleyne gefnogi'r gwaith drwy CLlLC.
**Cam Gweithredu 19: Karen Cornish i drafod â'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ffyrdd y gallai fod yn fwy amlwg ar draws Llywodraeth Cymru.**

3.21 Gwnaeth y Comisiynydd Michael sylwadau ar yr adborth cadarnhaol, a nododd fod yr Arglwydd Ganghellor wedi cydnabod bod mwy o lysoedd diwrnod yn eistedd ym mis Rhagfyr nag yn y cyfnod cyn COVID-19.

3.22 Canmolodd y Dirprwy Weinidog y cyflwyniad a'r gwaith unwaith eto.

**4. Y Gwir Anrh Simon Hart, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

4.1 Ymddiheurodd yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â bod yn bresennol drwy'r cyfarfod i gyd, ond roedd yn ddiolchgar am y gwahoddiad.

4.1 Nododd Mr Hart, er gwaethaf heriau'r pandemig, ei bod yn galonogol gweld nid yn unig bod cynnydd wedi cael ei gynnal, ond ei fod wedi cael ei sbarduno mewn gwirionedd.

4.2 Dywedwyd bod y trafodaethau am yr Ardoll Brentisiaethau wedi ailddechrau yn dilyn trafodaethau yn y Bwrdd. Mae gan Mr Hart gyfarfod â dau o Weinidogion Llywodraeth y DU ac mae'n gobeithio y gwneir cynnydd.

4.3 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Ysgrifennydd Gwladol am ddod i'r cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, gan nodi bod ei bresenoldeb yn y Bwrdd Partneriaeth a'r trafodaethau a gynhelir yn y fforwm hwn yn gwneud gwahaniaeth.
**Cam Gweithredu 20: Ysgrifennydd Gwladol Cymru i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf ar gynnydd mewn perthynas â'r Ardoll Brentisiaethau**

**5 Chris Jennings, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

5.1 Cafodd diweddariad ysgrifenedig ei gyflwyno a'i rannu cyn y cyfarfod.

5.2 Mae pedwar o bob pum carchardy wedi cael achosion o COVID-19. Caerdydd sydd yn y sefyllfa waethaf, gyda 120 aelod o staff i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r goblygiadau gweithredol wedi bod yn sylweddol, ond canmolwyd Tracey Cooper a'r tîm yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi helpu'r ystad carchardai i fonitro a rheoli achosion.

5.3 Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa ym mhob rhan o'r ystâd carchardai yn gwella (ac eithrio Caerdydd).

5.4 Mae gwaith gyda'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yn mynd rhagddo , yn ogystal ag ymdrechion i ddod o hyd i leoliad addas.

**6 Asim Hafeez, Y Swyddfa Gartref**

6.1 Yn ogystal â'r diweddariad ysgrifenedig, cododd Asim dri mater:

6.2 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau ei hymrwymiad i sicrhau y caiff polisïau eu llunio mewn modd cynhwysol a chadarn yn y dyfodol, yn dilyn adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

6.3 Nododd **yr adroddiad**, a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2020, nad oedd y Swyddfa Gartref yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) wrth ddatblygu, gweithredu a monitro polisïau amgylchedd cydymffurfiol rhwng 2014 a 2018, am nad oedd wedi bodloni ei dyletswydd i roi sylw dyledus i ddatblygu cyfle cyfartal ar gyfer pobl Dduon sy'n perthyn i genhedlaeth y Windrush.

6.4 Mae'r Swyddfa Gartref wedi derbyn casgliadau'r adroddiad, a chadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol Matthew Rycroft fod yr Adran yn parhau i gymryd camau breision i sicrhau na fydd yr anghyfiawnderau hyn yn digwydd eto, ac y byddwn yn parhau i weithio i wella prosesau llunio polisïau yn y dyfodol.

6.2 Cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod â Kit Malthouse a Gweinidog yr Adran Addysg yn ddiweddar. Y gobaith oedd y byddai trafodaethau yn parhau ac y byddai modd datrys problem yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru.

6.3 Esboniodd Asim agenda Cryfder yr Undeb yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona. Caiff adolygiad o gyflwr yr undeb ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen.

**7 Adolygu'r Camau Gweithredu a'r Materion**

7.1 Cytunwyd y byddai cofnod o'r camau gweithredu a'r materion yn cael ei rannu ynghyd â'r papurau ar gyfer y cyfarfod fel ffordd o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei thrafod yn allanol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru/Uned Gyswllt yr Heddlu/Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru a Chadeirydd Plismona yng Nghymru.

7.2 Fodd bynnag, tynnodd y Comisiynydd Michael sylw at y cynnydd a wnaed gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro wedi dechrau mynd ati i wneud pethau'n wahanol.

7.3 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Comisiynydd Michael am roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Cytunwyd ei bod yn bwysig clywed canlyniadau mater sy'n cael ei lywio gan y Bwrdd hwn.

**8 Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**

8.1 Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.

8.2 Cyn y Nadolig, gofynnodd y Dirprwy Weinidog a fyddai heddluoedd gweithredol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cysoni â'i gilydd i gynnig negeseuon a chyfathrebu ar y cyd i gefnogi ymgyrch Byw Heb Ofn. Roedd yr holl Brif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr a oedd yn bresennol o blaid gwneud hynny. **Cam Gweithredu 21: 8 Corfforaeth Undyn i gefnogi ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru adeg y Nadolig a negeseuon ar y cyd mewn perthynas â'r Ymgyrch Byw Heb Ofn, sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV.**

**9 Diweddariadau gan bartneriaid** – Diweddariadau ar lafar yn ôl eithriad

<u>CLlLC</u>

9.1 Roedd y Cynghorydd Rob Jones yn falch o fod yn bresennol yn y Bwrdd Plismona am y tro cyntaf, ac roedd yn edrych ymlaen at weithio'n agosach gyda phartneriaid.

9.2 Rhoddodd Naomi Alleyne y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed o ran recriwtio ym maes Diogelwch Cymunedol. Bydd gwaith yn mynd rhagddo ym mis Ionawr 2021 ar yr Adroddiad ar Ddiogelwch Cymunedol, a all gael ei fwydo i mewn i'r cyfarfod nesaf.

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

9.3 Tynnodd y Comisiynydd Jones sylw at ddau adroddiad, sef "Methu'r Pwynt" ac Adroddiad Cynghorol Crest ar Linellau cyffuriau. Gofynnwyd am gael trafod yr adroddiadau hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
**Cam Gweithredu 22: Y Comisiynydd Jones i rannu'r ddau adroddiad, sef "Methu'r Pwynt" ac Adroddiad Cynghorol Crest ar Linellau Cyffuriau er gwybodaeth.**
**Uned Gyswllt yr Heddlu i gydgysylltu â'r Comisiynydd Jones mewn perthynas â chyflwyno'r dogfennau fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol**

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

9.4 Roedd y Comisiynydd Cuthbert yn falch o glywed bod pryderon am yr Ardoll Brentisiaethau yn cael sylw, ac yn gobeithio y bydd camau'n cael eu cymryd i'w datrys.

9.5 Mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol difrifol, a darparu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn rhanbarthol.

9.6 Mae llety diogel yng Nghymru yn faes sy'n peri pryder o hyd, ac mae angen sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn ffocws i bawb.

9.7 Fel y nodwyd yn y diweddariad ysgrifenedig, codwyd pryder mewn perthynas â phraesept y Dreth Gyngor, a gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro pwy fydd yn gyfrifol am y diffyg yn y praesept.

9.8 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Comisiynydd am roi'r wybodaeth ddiweddaraf a nododd bod y pwyntiau a godwyd yn hollbwysig, ac y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ysgrifenedig y tu allan i'r cyfarfod.

Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

9.9 Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at y Timau Gorfodi ar y Cyd (JETs) gan esbonio eu bod yn galluogi'r heddlu i roi sylw ar y cyd a thargedu adnoddau sydd ar y lefel gywir. Mae gwaith gorfodi yn heriol o hyd ac, er y bydd angen addasu'r JETs o bosibl, maent yn fuddiol iawn.

9.10 Y gobaith yw y bydd yr economi a'r diwydiant twristiaeth yn ymadfer yn 2021. Fodd bynnag, yn y Brifddinas, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at oblygiadau mawr o ran galw. Dywedodd CC Vaughan y bydd yn parhau i ymgyrchu i gael cyllid ar gyfer y Brifddinas.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

9.11 Nododd Jo Hopkins y byddai diweddariad ysgrifenedig yn cael ei rannu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Llywodraeth Cymru

9.12 Nododd y Dirprwy Weinidog fod cydberthnasau ym maes Llywodraeth Leol wedi cryfhau yn ystod y pandemig.

9.13 Talwyd teyrnged i'r holl heddluoedd a phartneriaid am y ffordd y mae staff wedi mynd i'r afael â'r argyfwng.

**10 Diwedd y cyfarfod**

Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad.

**11 Dyddiad ac amser y cyfarfodydd nesaf**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau 18 Mawrth- | 14:30- 16:30 |
| Dydd Iau 24 Mehefin- | 14:30- 16:30 |
| Dydd Iau 23 Medi- | 13:30- 15:30 |
| Dydd Iau 2 Rhagfyr- | 13:30- 15:30 |